



Yr Uned Wenyn Genedlaethol

Triniaeth ysgwyd haid

Ionawr 2022

Mae treialon wedi dangos y gall ysgwyd gwenyn i'w symud i sylfaen newydd ac yna ddinistrio'r hen grwybrau fod yn fuddiol wrth reoli clefyd Ewropeaidd y gwenyn. Yr enw ar y weithdrefn hon yw triniaeth Ysgwyd Haid, a gall hefyd fod yn fuddiol wrth reoli poblogaethau gwiddon *Nosema spp.*, *chalkbrood* a *Varrow*. Yn aml, nythfeydd wedi'u trin drwy'r dull hwn fydd y cryfaf a'r mwyaf cynhyrchiol mewn gwenynfa. Mae rhai gwenynwyr bellach yn defnyddio'r system hon er mwyn disodli'r holl hwn grwybrau magu mewn cwch gwenyn drwy roi un driniaeth.

Pryd y gallaf wneud hyn?

Yr amser gorau i roi triniaeth Ysgwyd Haid yw rhwng canol mis Mawrth a chanol mis Gorffennaf, yn dibynnu ar yr ardal leol. Bydd fel arfer yn rhy oer i wenyn dynnu crwybrau newydd yn effeithiol cyn mis Mawrth, a gall colli mag fod yn niweidiol bryd hynny. Pe bai'r driniaeth yn cael ei rhoi yn hwyrach na mis Gorffennaf, yna byddai mag a fyddai'n helpu'r nythfa i oroesi'r gaeaf yn cael ei ddinistrio. Os yw'r nythfa'n gryf, gallwch roi'r driniaeth hon ar ddechrau mis Mawrth ond cofiwch y bydd angen i chi fwydo surop siwgr i'r gwenyn fel y gallant greu crwybrau. Os byddwch yn defnyddio'r driniaeth hon fel dull rheoli, byddai'n well osgoi'r cyfnod pan gaiff wyau eu dodwy a fydd yn datblygu'n wenyn a fydd yn porthi ar y prif lif mêl. Yn gyffredinol, pythefnos olaf mis Ebrill ac wythnos gyntaf mis Mai fydd y cyfnod hwn. Os byddwch yn rhoi'r driniaeth hon am fod achos o glefyd Ewropeaidd y gwenyn wedi cael ei gadarnhau, yna byddai hyn yn dderbyniol am ei bod yn bwysicach rheoli'r clefyd yn effeithiol. Os felly, rhaid rhoi'r driniaeth gyda chymorth Arolygydd Gwenyn awdurdodedig.

Sut mae rhoi triniaeth Ysgwyd Haid?

Nid yw'r dechneg hon yn arbennig o addas ar gyfer nythfeydd bach. Os byddwch yn ysgwyd nythfa fach, dylech ei rhoi mewn blwch cnewyllo.

1. Paratowch siambr fagu lân yn llawn fframiau newydd (neu wedi'u sterileiddio) o sylfaen, llawr glân, bwrdd gorchudd ac atalydd brenhines.
2. Symudwch y cwch gwenyn rydych yn bwriadu ei ysgwyd o'r neilltu a rhowch y llawr glân ar safle gwreiddiol y cwch gwenyn. Rhowch yr atalydd brenhines dros y llawr

ac yna gosodwch y blwch magu glân sy'n cynnwys fframiau o sylfaen ar ben yr atalydd brenhines.

3. Tynnwch y pedair ffrâm ganol allan a rhowch nhw o'r neilltu. Bydd gwenyn sy'n hedfan yn cyrraedd y siambr newydd hon.
4. Archwiliwch yr hen siambr fagu a dewch o hyd i'r frenhines.

Os nad ydych yn gyfforddus yn chwilio am y frenhines, dilynwch y pedwar cam hyn cyn symud ymlaen i gam 5:

- a. Rhowch atalydd arall dros y siambr fagu 'lân', a llofft fêl wag ar ben y cyfan. Bydd hyn yn gweithredu fel twndis i atal gwenyn rhag barfu dros ochr y siambr fagu;
- b. Ysgwydwch bob ffrâm o wenyn i'w symud i'r siambr fagu newydd â llofft fêl arni nes bod yr hen grwybrau yn wag heb ddim gwenyn arnynt;
- c. Ysgwydwch a brwsiwch unrhyw wenyn sy'n weddill ar yr hen gyfarpar i'w symud i'r siambr fagu â llofft fêl arni;
- d. Mygwch y gwenyn yn ysgafn i lawr i'r siambr lân; yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y gwenyn yn cropian drwy'r atalydd, a dylent adael y frenhines ar ôl i chi ei chodi a pharhau yn ôl yr arfer. Os na fydd hynny'n digwydd, chwiliwch amdani yn yr hen siambr ac ar y llawr.

Ar ôl i chi ddod o hyd i'r frenhines:

5. Ar ôl dod o hyd i'r frenhines, rhowch hi rhwng y fframiau o sylfaen yn y blwch newydd, neu mewn cawell brenhines fel y gellir ei rhyddhau i mewn i'r siambr newydd pan fyddwch wedi gorffen ysgwyd y gwenyn;
6. Ysgwydwch yr holl wenyn o'r hen grwybrau i mewn i'r siambr newydd. Gwneir hyn drwy ddal ffrâm o wenyn tua thraean o'r ffordd i mewn i'r blwch rhwng y sylfeini yn y siambr lân. Wedyn caiff y ffrâm ei symud yn gyflym tuag i lawr a'i stopio'n sydyn. Ceisiwch osgoi taro'r crwybr yn erbyn y siambr. Bydd y gwenyn yn cwmpo oddi ar y crwybr a bydd modd i unrhyw wenyn a fydd ar ôl ar y crwybr gael eu brwsio i ffwrdd;
7. Ysgwydwch a brwsiwch unrhyw wenyn sydd ar yr hen gyfarpar i'w symud i mewn i'r siambr newydd;
8. Pan fydd yr holl wenyn wedi cael eu hysgwyd i mewn i'r siambr fagu newydd, rhowch y fframiau o sylfaen a dynnwyd yn ôl yn eu lle;
9. Rhowch y bwrdd gorchudd yn ei le;
10. Oni bai bod llif cryf o neithdar, bwydwch y gwenyn â surop siwgr 'trwm', h.y. 600ml o ddŵr i 1kg o siwgr gronynnog gwyn. Gall fod yn fuddiol aros deuddydd cyn eu bwydo. Drwy wneud hyn, bydd unrhyw neithdar halogedig a gaiff ei gludo gan y gwenyn yn cael ei ddefnyddio i wneud crwybrau;
11. Ar ôl tua wythnos, pan fydd mag yn bresennol, tynnwch yr atalydd brenhines a'i sterileiddio'n briodol;
12. Parhewch i fwydo nes bod yr holl grwybrau wedi'u tynnu. Ar y pwynt hwn, archwiliwch y crwybrau'n ofalus oherwydd mae'n bosibl y bydd angen troi'r rhai ar y pen o gwmpas neu eu symud yn nes at y canol. Y rheswm dros hyn yw y bydd gwenyn yn ei chael hi'n anodd clystyru a chreu cŵyr ar fframiau sy'n agos at ochr y

blwch magu. Os bydd clefyd Ewropeaidd y gwenyn wedi'i gadarnhau, rhaid dinistrio'r hen grwybrau a fframiau.

National Bee Unit

APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,
Sand Hutton, York YO41 1LZ

Ffôn: 03003030094 E-bost: nbu@apha.gov.uk

Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Ionawr 2022

(h) Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk